Eich canllaw i **gerdded ar dir mynediad**



ramblers
at the heart of walking

Beth yw tir mynediad?

Yng Nghymru a Lloegr mae gennym rwydwaith byd-enwog o lwybrau troed y mae gan bawb yr hawl i gerdded arnynt. Mae'r llwybrau hyn yn cael eu galw'n "hawliau tramwy cyhoeddus". Mae hawl gennym hefyd, mewn rhai mannau, i adael y llwybrau hyn a cherdded ar draws tir preifat. "Mynediad agored" yw hyn. Mae mynediad agoriad yn caniatáu i chi gerdded yn ddirwystr, darganfod tirweddau gwyllt agored, a mynd eich ffordd eich hun.

Bydd Llwybr Arfordir Lloegr, a gaiff ei gwblhau yn 2020, yn rhoi hawl i bobl fynd ar yr holl dir rhwng y llwybr a'r môr. Y glandir arfordirol yw hwn, a chewch fynd yno i fforio traethau a blaendraethau hyd at ymyl y dŵr.

Pwrpas y canllaw hwn yw eich helpu i wneud y gorau o'ch hawliau mynediad agored – felly darllenwch ef, cydiwch mewn map, ac ewch i gerdded!

Mae hawliau mynediad yn yr Alban yn wahanol i rai Cymru a Lloegr. I ddarganfod mwy am eich hawliau mynediad yn yr Alban, lawrlwythwch ein canllaw 'Scotland on Foot'.

www.ramblers.org.uk/accessguide.

Ble y gallwch gerdded

Mae tir mynediad agored yng Nghymru a Lloegr wedi'i farcio ar fapiau Ordnans mewn melyn.



Mae glandir arfordirol yn Lloegr wedi'i farcio mewn porffor.



Mae gennych hawl i gerdded ble bynnag y mynnwch yn yr ardaloedd hyn, yn amodol ar yr eithriadau a'r cyfyngiadau a nodir yn y canllaw hwn.

Cewch ddringo dros waliau neu ffensys i gyrchu, gadael neu groesi tir mynediad agored, ond rhaid i chi beidio â'u difrodi.

Mae'r symbol hwn yn cael ei ddefnyddio'n aml i ddynodi tir mynediad agored. Mae'r symbol 'dim mynediad' yn golygu eich bod chi'n gadael tir mynediad agored ac y bydd angen i chi ddod o hyd i lwybr cyhoeddus i barhau â'ch taith.

mynediad

dim mynediad

Cyfyngiadau ar ble y gallwch gerdded

Weithiau mae cyfyngiadau ar yr hawl i gerdded ar draws tir mynediad agored neu landir arfordirol. Nodwch unrhyw gyfyngiadau* cyn cychwyn, a chwiliwch am wybodaeth ar eich taith.

Ni chewch gerdded ar rai mathau o dir, hyd yn oed os yw o fewn ffiniau ardal mynediad agored neu landir arfordirol ar fap. Mae'n bosibl na fydd arwyddion ar y tir i ddangos hyn. Dyma fathau cyffredin o dir y gallwch ddod ar eu traws o fewn ardaloedd mynediad agored lle **nad oes** gennych hawl i grwydro:

- **Adeiladau (a thir o fewn 20m i adeilad)**
- **Parciau a gerddi preifat**
- **Chwareli**
- **Rheilffyrdd neu dramffyrdd**
- **Meysydd golff**
- **Erodromau neu feysydd awyr**
- **Corlannau da byw dros dro**
- **Caeau rasio a thir a ddefnyddir ar gyfer hyfforddi ceffylau rasio**
- **Tir milwrol lle gallant fod yn tanio drylliau er enghraifft**

Mae'r cyfyngiadau ychydig yn wahanol o fewn y glandir arfordirol – gweler y dudalen nesaf.

Sut bynnag, cewch gerdded ar lwybr cyhoeddus mewn ardal gyfyngedig.

Ewch i'n gwefan i ddarganfod mwy am ble y gallwch gerdded
www.ramblers.org.uk/accessguide

Beth y gallwch ei wneud ar dir mynediad

Mae tir mynediad agored wedi'i ddynodi ar gyfer cerdded a gweithgareddau hamdden ar droed. Fel rheol, mae hyn yn golygu **y cewch gerdded, mynd â'r ci am dro, rhedeg, dringo, gwylio adar, neu fwynhau picnic** (os ewch â'ch sbwriel adref gyda chi).

Mae'n bosibl bod busnesau gwledig yn defnyddio tir mynediad agored neu ei fod yn gartref i fywyd gwyllt bregus, felly mae **rhai pethau na allwch eu gwneud** heb gael caniatâd y perchennog, er enghraifft:

- **Rhyddhau ci o'i dennyn lle mae da byw (neu rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf)**
- **Beicio neu farchogaeth**
- **Chwaraeon dŵr, gan gynnwys nofio neu fynd â chwch i afon, llyn neu gronfa ddŵr**
- **Gyrru cerbyd ag injan**
- **Cynnau tanau neu wersylla**
- **Saethu, chwilota am fwyd neu hel blodau**
- **Defnyddio datgelydd metel**
- **Cymryd rhan mewn gemau trefnedig neu weithgareddau masnachol**
- **Ymyrryd â gweithgareddau ffermwyr neu dirfeddianwyr eraill**

Mae Llwybr Arfordir Lloegr wedi rhoi hawl mynediad i'r glandir arfordirol, a ddangosir mewn lliw porffor ar fapiau Ordnans.

Mae rhai mathau o dir yma yn parhau'n waharddedig, ac mae rheolau ynghylch beth y gallwch ac na allwch ei wneud. Maen nhw'n debyg i'r rheolau ar gyfer tir mynediad agored, er y gallwch gerdded:

- **Ar dir o fewn 20m i adeilad**
- **Gyda'ch ci oddi ar ei dennyn drwy'r flwyddyn – ond rhaid i chi ddilyn unrhyw reolau lleol a all fod mewn grym**
- **Drwy dir sy'n cael ei ddefnyddio i hyfforddi ceffylau**

Gall mynediad i ardaloedd o forfeydd heli a fflatiau llaid lle nad yw'n ddiogel i gerdded fod wedi'i wahardd. Gall y lleoedd hyn fod yn beryglus dros ben i ymwelwyr nad ydynt yn adnabod yr ardal yn dda. Pa un a ydych yn ymwelydd neu'n byw'n lleol, mae'n bwysig rhoi sylw i'r amodau ar y ddaear a darllen a dilyn y cyfarwyddiadau ar yr arwyddion.

Dysgwch fwy am beth y gallwch ei wneud ar dir mynediad ar ein gwefan **www.ramblers.org.uk/accessguide**

Eich cyfrifoldebau

Pan fyddwch allan yn cerdded ar dir mynediad, chi sy'n gyfrifol am eich diogelwch eich hun ac am sicrhau nad ydych chi'n gwneud niwed i'r bobl, anifeiliaid neu amgylchedd o'ch cwmpas. Dilynwch y **Cod Cefn Gwlad** bob amser er mwyn mwynhau, parchu a diogelu cefn gwlad.

Dilynwch dair egwyddor allweddol y Cod Cefn Gwlad:

1. Mwynhewch yr awyr agored

- Cynlluniwch eich taith a byddwch yn barod

2. Parchwch bobl eraill

- Meddyliwch am y gymuned leol a phobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored
- Gadewch glwydi ac eiddo fel yr oeddynt a chofiwch ddilyn y llwybrau pan nad ydych ar dir mynediad agored

3. Diogelwch yr amgylchedd naturiol

- Peidiwch â gadael unrhyw arwydd o'ch ymweliad ac ewch â'ch sbwriel gyda chi
- Cadwch gŵn dan reolaeth effeithiol

Dysgwch fwy am eich cyfrifoldebau ar ein gwefan **www.ramblers.org.uk/accessguide**

Darganfyddwch fwy...

Os nad ydych chi'n siŵr ble y gallwch gerdded neu beth y gallwch ei wneud yno, cysylltwch â **policy@ramblers.org.uk**

Fel arall, gallwch gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru, Natural England neu eich awdurdod lleol gan ddefnyddio'r manylion isod.

Cyfoeth Naturiol Cymru yn **openaccessmapping@naturalresourceswales.gov.uk** neu ffôn **0300 065 3000**

Canolfan Gyswllt Mynediad Agored Natural England yn **openaccess@naturalengland.org.uk** neu ffôn **0300 060 2091**.

Eich awdurdod lleol yn: **https://www.gov.uk/find-local-council**.

*Chwiliwch am gyfyngiadau ar gerdded yn **http://www.openaccess.naturalengland.org.uk/wps/portal/oasys/maps/MapSearch**